

Polisi Ad-dalu AaGIC ar gyfer Meddygon a Deintyddion Preswyl Cwestiynau Cyffredin

Mae'r Cwestiynau Cyffredin hyn yn cwmpasu'r ddau brif fath o dreuliau adleoli, sy'n dod o dan yr un cyfrif treuliau a'r gyllideb.

- Os penderfynwch symud adref at ddibenion hyfforddi - **Adleoli**.
- Cost teithio i'ch man gwaith, y cyfeirir ati fel Teithio **Gormodol**.

Mae'r llwyfan ar gyfer hawlio treuliau trwy wefan Sel-Treuliau: [Mewngofnodi i'ch treuliau](#)

Mae cyfrif traul yn cael ei sefydlu ar eich cyfer ar y pwynt rydych chi'n dechrau hyfforddi.

I wneud hawliad am adleoli a theithio gallwch ddefnyddio'r codau QR hyn.



Cod QR ffurflen gais adleoli



Cod QR ffurflen gais milltiroedd gormodol

Am ragor o wybodaeth am eich cyfrif traul o ymholiadau anfonwch e-bost at:

NWSSP.TrainingGradeExpenses@wales.nhs.uk

1. Pwy mae'r polisi hwn yn cwmpasu?

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i feddygon a deintyddion preswyl ar swyddi hyfforddi cylchdro cymeradwy gyda phenodiadau tymor penodol nad ydynt yn cylchdro o flwyddyn neu fwy:

- Meddygon preswyl Meddygol Sylfaen blwyddyn 1
- Meddygon preswyl Meddygol Sylfaen blwyddyn 2
- Meddygon preswyl hyfforddiant arbenigol (ST1 a CT1 i fyny gan gynnwys meddygon preswyl WCAT)
- Preswylwyr deintyddol craidd ac arbenigol
- Meddygon preswyl Meddyg Teulu
- Penodiad Locum LAT ar gyfer Hyfforddiant a FTSTA deintyddol

Nid yw meddygon LAS, SAS a swyddi eraill a benodwyd gan y Bwrdd Iechyd yn cael eu cwmpasu gan y polisi hwn. Nid yw meddygon preswyl sydd ar y tu allan i'r rhaglen (OOP) hefyd yn cael eu cwmpasu gan y polisi hwn.

2. Beth yw fy lwfans blynyddol ar gyfer adleoli a theithio gormodol?

Y lwfans presennol yw hyd at £3700 bob blwyddyn ar gyfer adleoli a threuliau teithio dros ben gyda'i gilydd. Fodd bynnag, os ydych yn cyrraedd y lwfans o £3700 mewn un flwyddyn hyfforddi byddwch yn gallu gwneud cais i wneud hawliadau ychwanegol hyd at gyfanswm o £7400 os byddwch yn bodloni un o'r amgylchiadau eithriadol canlynol:

- Rydych yn symud i Gymru yn dilyn apwyntiad i Raglen Hyfforddi AaGIC (caniateir treuliau o'r porthladd mynediad i'r DU).
- Rydych yn symud o fewn Cymru yn dilyn apwyntiad i raglen hyfforddi AaGIC.
- Rydych yn symud rhwng gogledd a de Cymru (ac i'r gwrthwyneb) oherwydd eich rhaglen hyfforddi bresennol AaGIC.
- Rydych yn symud i swydd yn Lloegr fel rhan o'ch rhaglen hyfforddi bresennol AaGIC.

Pan fyddwch yn cyrraedd y lwfans presennol £3700 neu'n gwneud hawliad mwy na £3700, bydd hyn yn gofyn am gwblhau ffurflen ariannu ychwanegol drwy NWSSP.

Ni ellir defnyddio cyllid ychwanegol sy'n uwch na £3700 ar gyfer teithio gormodol.

Bydd NWSSP yn cysylltu â'r ddeoniaeth feddygol yn AaGIC i gadarnhau eich bod wedi cwrdd ag un o'r amgylchiadau eithriadol uchod. Bydd y penderfyniad terfynol ynghylch cymhwysedd yn cael ei wneud gan y ddeoniaeth feddygol yn seiliedig ar y meini prawf hyn.

Rhaid gwneud hawliadau o fewn 3 mis ar ôl i'r gost gael ei chynnal.

3. Beth yw fy Lleoliad Sylfaen?

Eich Lleoliad Sylfaen yw'r ysbyty neu'r lleoliad hyfforddi agosaf at eich cartref y byddwch neu y gallech ei gylchdroi iddo ar eich rhaglen hyfforddi cylchdro.

F1/F2 — y lleoliad sylfaen fydd yr ysbyty agosaf at gyfeiriad cartref y cyflogai sy'n un o'r lleoliadau hyfforddi ar gyfer y rhaglen hyfforddi cylchdro F1/F2 y maent yn rhan ohoni. Bydd hyn yn cael ei ddangos ar y system Codi.

Meddyg Preswyl Meddyg Teulu - y lleoliad sylfaen fydd y lleoliad ysbyty/cymunedol agosaf at gyfeiriad cartref y cyflogai sy'n un o'r lleoliadau hyfforddi ar y rhaglen hyfforddi cylchdro GPST y maent yn rhan ohoni. Bydd hyn yn cael ei ddangos ar y system Codi.

Meddyg/Deintydd Preswyl Arbenigol — y lleoliad sylfaen fydd yr ysbyty/lleoliad cymunedol agosaf at gyfeiriad cartref y cyflogai a allai fod yn rhan o'r rhaglen hyfforddi cylchdro, fel y manylir ar y matrices arbenigedd. Bydd hyn yn cael ei nodi ar ddechrau'r hyfforddiant arbenigol a dim ond os bydd y cyfeiriad cartref yn newid. Bydd hyn yn cael ei ddangos ar y system Codi.

4. Beth yw Teithio Gormodol a sut mae'n cael ei gyfrifo?

Mae eich cymudo dyddiol i'r gwaith yn cael ei ystyried fel Teithio Gormodol. Dyma'r gwahaniaeth rhwng teithio i'ch lleoliad sylfaen a'ch man gwaith.

Milltiroedd gormodol = (milltiroedd rhwng cartref a man gwaith presennol) minws (milltiroedd rhwng cartref a lleoliad sylfaen).

Tal Gormodol = (cost pris rhwng y cartref a'r lle gwaith cyfredol) minws (cost pris rhwng y cartref a'r lleoliad sylfaen)

Er enghraifft os yw'ch lleoliad sylfaen yn UHW, Caerdydd a bod eich cartref ym Mhenarth ond lle gwaith presennol yw'r Tywysog Siarl, Merthyr, bydd y system dreuliau yn cyfrifo'r daith o'ch cartref i'r Tywysog Siarl ac yn didynnu'r daith o'ch cartref i UHW.

Milltiroedd teithio gormodol= (milltiroedd rhwng Penarth a'r Tywysog Siarl) minws (milltiroedd rhwng Penarth a UHW).

Er mwyn hawlio teithio dros ben, rhaid i chi gyflwyno cais am BOB newid yn y rhaglen hyfforddi cylchdro (F1, F2, GPST & Speciality) bydd gormodedd yn cael ei alluogi ar eich cyfrif am gyfnod y lleoliad y mae'r cais yn cwmpasu iddo.

Os yw meddyg preswyl neu ddeintydd yn gweithio mewn mwy nag un lleoliad hyfforddi (rhaid i hwn fod yn batrwm penodol rheolaidd o weithio, e.e. clinigau rheolaidd mewn ysbyty gwahanol neu ar ymrwymadau ar alwad), gallant hawlio'r draul deithio gormodol hon drwy'r broses adleoli. Dylid hawlio gwaith ad hoc a gwblhawyd gan feddyg preswyl neu ddeintydd fel milltiroedd busnes cyflogwr. Mae angen defnyddio busnes ar eich yswiriant car hefyd.

5. Beth sy'n digwydd os bydd rhaid i mi deithio i ysbyty arall i gynnal clinig ac ati?

Os yw ar sail ad-hoc, bydd angen i chi hawlio hyn fel milltiroedd busnes. Os ydych yn gweithio mewn mwy nag un lle fel rhan o'ch cylchdro (rhaid i hwn fod yn batrwm penodol rheolaidd o weithio), gallwch hawlio teithio dros ben yn unol ag adran 4.

Os ydych yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus, byddai cyfrifiad tebyg yn berthnasol mewn perthynas â thocynnau yn hytrach na milltiroedd a gall y tîm traul gynghori ymhellach.

6. Beth yw lwfans rhent Gormodol?

Mae Lwfans Rhent Gormodol yn cwmpasu unrhyw gostau rhent cynyddol rhwng eich hen eiddo rhent ac eiddo rhent newydd, os oes rhaid i chi symud at eich dibenion hyfforddiant cylchdro. Ni fydd symudiad nad yw'n gysylltiedig â hyfforddiant cylchdro neu am resymau personol e.e. symudiad o fewn yr un ardal yn gymwys i gael lwfans rhent dros ben.

Sylwer: Lle bo'n bosibl dylai llety fod o safon debyg, fodd bynnag gall fod eithriadau i hyn os bydd eich anghenion tai yn newid.

Pan fo meddyg neu ddeintydd preswyl wedi bod yn derbyn llety am ddim a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd cynnal o'r blaen, defnyddir budd llety o'r fath fel y manylir ar y P11D wrth gyfrifo rhent dros ben. Y gwahaniaeth rhwng y rhent ar eich eiddo presennol a gwerth budd-dal eich llety am ddim fydd y swm a ad-dalwyd.

Nid yw'r lwfans hwn yn daladwy lle mae gennych eiddo arall wedi'i ddsbarthu fel Lwfans Ymrwymiad Parhaus neu Lwfans Llety Rhent.

Dim ond pan fo'r eiddo rhent o fewn Cymru neu o fewn 65 milltir i'r lleoliad hyfforddi agosaf yng Nghymru y mae'r lwfans hwn yn daladwy.

Dim ond am flwyddyn ar ôl symud i lety rhent newydd y gellir hawlio lwfans rhent dros ben. Mae hyn yn caniatáu i'r meddyg preswyl neu'r deintydd wneud trefniadau cynllunio ariannol priodol.

Nid ydych yn gymwys i hawlio os na wnaethoch dalu rhent o'r blaen. Ni ellir hawlio rhent dros ben am lety blaenorol a oedd yn rent tymor byr fel AirBnB.

7. Beth yw Lwfans Ymrwymadau Parhaus?

Mae Lwfans Ymrwymiad Parhaus yn talu costau pan fyddwch wedi symud eich cartref parhaol i leoliad newydd yng Nghymru neu o fewn 65 milltir i leoliad sylfaen, ond rydych yn dal i godi costau rhent neu forgois ar yr hen eiddo h.y. eiddo heb ei werthu eto neu gytundeb rhent rhwymol yn dal i fod yn ei le. Gallwch hawlio am yr ymrwymiad parhaus.

Mae'r lwfans yn daladwy am uchafswm o 12 mis.

Er enghraifft, rydych wedi symud yn barhaol o Fangor i Abertawe at ddibenion hyfforddi. Fodd bynnag, mae eich tŷ ym Mangor yn parhau ar y farchnad/mae ganddo gytundeb rhent na allwch terfynu. Rydych nawr yn talu £800 y mis yn Abertawe am forgois/rhent ond mae'n rhaid i chi dalu morgais/rhent misol o £600 ym Mangor hyd nes bod eich tŷ wedi'i werthu/eich hysbysiad cytundeb rhentu wedi'i gwblhau. Gallwch hawlio am £600/mis fel ymrwymiad parhaus o'ch lwfans blynyddol gan mai dyma'r isaf o'r ddwy gost.

Mae'r lwfans hwn yn destun treth ac yswiriant gwladol

8. Beth yw Lwfans Llety Rhent?

Mae lwfans llety rhent yn daladwy pan fyddwch yn rhentu llety dros dro at ddibenion hyfforddi yng Nghymru neu o fewn 65 milltir i leoliad sylfaen, ond mae gennych contract morgais/rhent o

hyd ar eich cartref parhaol y mae angen ei gynnal. Bydd angen i chi ddarparu prawf o'r ddwy gost llety, bydd costau llety dros dro yn cael eu had-dalu am uchafswm o 12 mis os yw eich cartref parhaol y tu allan i Gymru neu y tu allan i 65 milltir i'r lleoliad hyfforddi agosaf i'ch llety parhaol.

Er enghraifft, os yw eich morgais/rhent ar eich cartref parhaol yn £1000/mis, a'ch rhent llety dros dro yw £700/mis, gallwch hawlio £700/mis o'ch lwfans blynyddol.

Sylwer: Ni allwch hawlio lwfans llety rhent os ydych yn derbyn incwm rhent ar eich eiddo parhaol.

Mae'r lwfans hwn yn destun treth ac yswiriant gwladol

9. Beth yw ymweliadau dychwelyd adref?

Os ydych yn hawlio'r Lwfans Llety Rhent rydych chi'n gymwys i hawlio am un ymweliad dychwelyd yr wythnos.

Os ydych yn hawlio Lwfans Ymrwymiad Parhaus yna rydych chi'n gymwys i hawlio am un daith y mis i wirio ar eich hen eiddo.

Gweler adran 5.8 o'r polisi.

Mae'r lwfans hwn yn destun treth ac yswiriant gwladol

10. A allwch roi enghreifftiau o pryd y gall meddygon preswyl neu ddeintyddion hawlio am lety dros dro?

Mae hyn yn ymwneud â pharagraff 5.6 o'r polisi. Nodwch fod treuliau llety a theithio dros dro ond yn berthnasol i feddygon/deintyddion preswyl sy'n cynnal cartref parhaol ond mae'n ofynnol iddynt gymryd llety dros dro tymor byr mewn mannau eraill am 5 diwrnod neu lai i fodloni gofynion lleoliad hyfforddiant.

Mae enghreifftiau yn cynnwys meddygon preswyl Meddygaeth Brys Cyn Ysbyty (PHEM) sy'n aml yn ymgymryd â lleoliadau byr lluosog (5 diwrnod neu lai) ledled Cymru fel rhan o'u rhaglen hyfforddi.

11. A allaf hawlio fy nhaliadau rhent ymlaen llaw neu fel cyfandaliad?

Na, bydd angen hawlio rhent yn fisol gyda phrawf o daliad.

12. A allaf gael ad-dalu am fond/blaendal ar gyfer eiddo rhent?

Na, gan fod bondiau a blaendaliadau yn cael eu dychwelyd.

13. A allaf hawlio am ddychwelyd adref ar benwythnosau os yw fy nheulu'n byw y tu allan i'r DU?

Na, dim ond yn y DU y gallwch hawlio.

14. A allaf hawlio am Tollau?

Gallech, atodwch dderbynebau neu sgrinlin o'r cyfrif talu ar-lein.

15. A fyddaf yn talu treth ar fy nhreuliau?

Teithio Gormodol: Pan fyddwch yn cael eich cyflogi gan y Cyflogwr Arweiniol Sengl bydd gennych un contract am gyfnod eich hyfforddiant. Ni fydd eich teithio gormodol yn yr achos hwn yn destun treth. Fodd bynnag, pan fyddwch yn cael eich cyflogi gan Fwrdd lechyd bydd gormod o deithio yn destun treth. Mae hyn yn cael ei drethu'n awtomatig cyn i chi dderbyn taliad felly nid oes angen cynnwys ar ffurflenni treth ac ati. Ni allwch hawlio'r dreth hon yn ôl. Gweler y dolenni CThEM isod ar gyfer

Rhagor o wybodaeth:

[EIM10020 - Incwm cyflogaeth: teithio a thaliadau cynhaliaeth: teithio o gartref i'r man gwaith arferol - Llawlyfr mewnol CThEM - GOV.UK](#)

[EIM61017 - Triniaeth dreth meddygon: meddygon ysbytai: meddygon iau ar gontractau cylchdro: treuliau teithio - Llawlyfr mewnol CThEM - GOV.UK](#)

Llwfans Llety Rhent/Llwfans Ymrwymadau Parhaus/Rhent Gormodol/Milltiroedd

Dychwelyd Cartref : Lle mae'n drethadwy, caiff hyn ei drethu'n awtomatig cyn i chi dderbyn taliad felly nid oes angen cynnwys ar ffurflenni treth ac ati. Ni allwch hawlio'r dreth hon yn ôl.

[EIM02000 - Incwm cyflogaeth: llwfansau cost tai ychwanegol - Llawlyfr mewnol CThEM - GOV.UK](#)

Costau ar gyfer Prynu/Gwerthu cartref: Gall costau sy'n ymwneud â phrynu neu werthu eich cartref fod yn destun treth yn dibynnu ar pryd y cyflwynir yr hawliad. Bydd hawliadau yn cael eu had-dalu yn ddi-dreth lle gwneir yr hawliad erbyn diwedd y flwyddyn ariannol yn dilyn y flwyddyn y dechreuodd eich cyflogaeth ynddi. Bydd hawliadau a wneir ar ôl diwedd y flwyddyn dreth yn dilyn y flwyddyn y dechreuodd eich cyflogaeth yn destun treth.

Enghraifft:

Dyddiad dechrau contract 04/08/2020

Mae hawliadau a gyflwynwyd hyd at 31/03/22 yn rhydd o dreth

Mae hawliadau a gyflwynwyd ar ôl 31/03/22 yn destun treth ac Yswiriant Gwladol

Milltiroedd

Mae unrhyw elfen drethadwy o dreuliau milltiroedd yn cael ei adrodd i CThEM yn awtomatig gan eich cyflogwr.

Faint o dreth fyddaf yn ei thalu?

Pan fo hawlwr yn cael eu cyflogi gan Gyflogwr Arweiniol Sengl mae treth yn daladwy yn unol â'ch enillion, a'ch llwfans personol.

Gweler Cwestiynau Cyffredin 23 am wybodaeth milltiroedd busnes ac astudio treth y gyllideb.

16. os nad wyf yn hawlio o fewn y 3 mis a oes unrhyw amgylchiadau eithriadol a gaiff eu hystyried, bydd hynny'n caniatáu imi wneud hawliadau y tu allan i'r 3 mis?

Mae'n ofynnol i holl staff GIG Cymru wneud hawliadau am dreuliau sy'n gysylltiedig â'u gwaith o fewn 3 mis i ddyddiad y draul. Yr unig amgylchiad eithriadol y bydd AaGIC yn ei ystyried mewn perthynas â hawliadau y tu allan i ffenestr 3 mis, yw absenoldeb o'r gwaith oherwydd salwch personol neu ffactorau eraill yn ymwneud â chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Hyd yn oed yn yr amgylchiadau hyn ni chaniateir hawliadau dros 3 mis ond o fewn graddfa amser rhesymol os yw'r ffenestr hawlio 3 mis wedi'i cholli.

Ni fyddwn yn ystyried amgylchiadau eithriadol sy'n gysylltiedig â peidio â bod yn ymwybodol o'r polisi (mae gan bob meddyg preswyl a deintydd wybodaeth am adleoli a roddir iddynt yn y llawlyfr meddyg/deintydd preswyl ar ddechrau'r hyfforddiant).

Ni fyddwn yn ystyried amgylchiadau eithriadol sy'n gysylltiedig â cholli'r dyddiad cau 3 mis ar gyfer hawliadau sy'n gysylltiedig â materion sefydliadol neu faterion sy'n gysylltiedig â defnyddio system draul SEL.

17. A fydd Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn ystyried unrhyw amgylchiadau eithriadol eraill a beth yw'r broses sydd angen ei dilyn?

Efallai y bydd gan feddyg preswyl unigol amgylchiadau sy'n codi sydd y tu allan i'r polisi adleoli. Efallai y bydd amgylchiadau eithriadol hefyd am resymau eraill sy'n gysylltiedig â chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Os bydd y rhain yn digwydd, bydd yr achosion hyn yn cael eu hystyried yn unigol gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Anogir meddygon preswyl i godi amgylchiadau o'r fath gyda'r tîm treuliau, ac os oes angen bydd hyn yn cael ei uwchgyfeirio at uwch dîm deoniaeth feddygol Addysg a Gwella Iechyd Cymru, a fydd yn ystyried pob cais mewn panel misol. Unwaith y bydd y panel wedi dod i benderfyniad, bydd y meddyg preswyl yn cael ei hysbysu o'r penderfyniad.

Mae'r Cwestiynau Cyffredin canlynol yn ymwneud ag ymarferoldeb hawlio Adleoli a Threuliau Teithio Gormodol

18. Beth alla i ei gyflwyno fel prawf taliad?

Derbynir derbynebau papur/electronig, slipiau cyflog/P11D (ar gyfer llety ysbyty), copi o ddatganiad banc neu sgrinlun o drafodiad arlein/datganiad banc. Bydd angen uwchlwytho'r rhain i wefan Sel-Treuliau pan fyddwch yn nodi'ch cais.

19. Oes angen i mi ychwanegu fy manylion banc at fy nghyfrif treuliau?

Na, mae'r manylion banc a roddwyd gennych ar eich cais am gyfrif yn cael eu cadw ar ein system dalu. Nid oes angen i chi gwblhau'r adran 'Fy Nghyfrifon Banc' ar wefan SEL-Treuliau.

20. Cyflwynwyd fy hawliad dros wythnos yn ôl ond nid yw wedi'i gymeradwyo eto.

Y Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno hawliadau yw diwrnod gwaith olaf y mis, dylid cyflwyno hawliadau ar y cyfle cynharaf i sicrhau bod gan gymeradwywyr amser digonol i gymeradwyo hawliadau. Caiff hawliadau eu cymeradwyo ar wahanol adegau yn ystod y mis. Fodd bynnag, telir pob hawliad a gymeradwyir erbyn y 3^{ydd} o'r mis ar yr ²¹ ain o'r mis hwnnw.

21. Sut mae newid fy manylion lleoliad neu gyfeiriad cartref?

Rhaid i chi ddiweddarau eich cyfeiriad cartref trwy eich porth hunanwasanaeth ESR ac ar ôl eu diweddarau bydd eich manylion yn cael eu trosglwyddo i'r system draul dros nos. Ar gyfer meddygon preswyl a deintyddion ar y gyflogres Cyflogwr Arweiniol Sengl, ceir manylion eich lleoliad ar y system Codi, caiff y rhain eu bwydo'n awtomatig i'r systemau cyflogres a thraul, lle mae'r manylion yn anghywir bydd angen i chi gysylltu ag AaGIC i gael y manylion wedi'u diweddarau.

22. Rwy'n cael trafferth ailosod fy nghyfrinair gan ei fod yn datgan nad yw fy "cyfeiriad e-bost yn unigryw"?

Mae hyn yn golygu bod eich cyfeiriad e-bost yn cael ei gadw ar fwy nag un cyfrif treuliau, o bosibl gyda'ch Bwrdd Iechyd presennol neu Fwrdd Iechyd blaenorol. Gellir ailosod eich cyfrinair i chi os cysylltwch â chi os gwelwch yn dda

NWSSP.TrainingGradeExpenses@wales.nhs.uk

23. Treth Trafodiadau Tir

Dim ond pan fo hyn wedi'i godi yn erbyn eiddo preswyl sengl, sy'n cael ei ddynodi fel prif breswylfa'r meddyg neu'r deintydd preswyl, y gellir ad-dalu treth trafodiadau tir.

Ni fydd treth trafodiadau tir yn cael ei had-dalu am brynu eiddo preswyl ychwanegol, mae hyn yn cynnwys eiddo a brynwyd i gymryd lle eich prif breswylfa. Lle nad yw'r brif breswylfa bresennol wedi'i gwerthu ar y diwrnod y byddwch yn cwblhau'r gwaith o brynu'r eiddo newydd, codir treth trafodiadau tir ar y gyfradd uwch a'i dosbarthu fel eiddo ychwanegol.

Mae rhagor o wybodaeth am dreth trafodiadau tir ar gael drwy'r ddolen isod

[Treth Trafodiadau Tir: cyflwyniad | LLYW.CYMRU](#)

24. Beth alla i ei wneud os nad wyf yn hapus gyda phenderfyniad a wnaed ynghylch peidio â thalu hawliad yr wyf wedi'i gyflwyno?

Efallai y bydd adegau pan nad yw hawliad a gyflwynir yn cael ei dalu am nad yw'n cael ei gwmpasu gan y polisi hwn neu fod amgylchiadau eithriadol sy'n dod y tu allan i'r polisi neu'r Cwestiynau Cyffredin. Os ydych yn credu bod hyn yn berthnasol i chi neu fod penderfyniad yn annheg ceir proses apelio lle bydd eich hawliad yn cael ei adolygu gan yr uwch dîm yn ddeoniaeth feddygol AaGIC. Gallwch wneud cais i NWSSP.TrainingGradeExpenses@wales.nhs.uk er mwyn i hyn ddigwydd. Mae adolygiadau o'r achosion hyn yn digwydd bob mis.